

Etholiadau Senedd Ewrop – 23 Mai 2019

Canllawiau ar gyfer Staff Llywodraeth Cymru

1. Rhagarweiniad

Cynhelir yr etholiadau ar gyfer Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019. Cyn hynny fe gynhelir cyfnod cyn yr etholiad ffurfiol, a fydd yn dechrau ar 2 Mai 2019.

Ni fydd y rhan fwyaf o'n gwaith yn cael ei heffeithio gan hyn. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd cyfyngiadau ar rai o'n gweithgareddau.

Yn rhinwedd ein swyddi fel staff Llywodraeth Cymru, ein rôl ni yw parhau i gynorthwyo'r Gweinidogion wrth eu gwaith fel arfer, gan gofio ar yr un pryd fod angen osgoi gweithredu mewn modd y bernir, neu y gellid barnu, ei fod yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth plaid neu mewn modd sy'n debygol o fod â chysylltiad uniongyrchol ag etholiad Senedd Ewrop.

Diben y nodyn hwn yw rhoi arweiniad cyffredinol ar yr effaith y gallai'r cyfnod cyn yr etholiad ei chael ar staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru. Bydd staff sy'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad yn cael canllawiau ar wahân sy'n cael eu paratoi yng ngoleuni eu hamgylchiadau penodol hwy. Bydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn cael eu hysbysu o egwyddorion y canllawiau hyn. Bydd y canllawiau'n gymwys o ddechrau ffurfiol y cyfnod cyn yr etholiad ar 2 Mai hyd at y diwrnod pleidleisio ar 23 Mai, a chan gynnwys y diwrnod hwnnw.

Noder bod etholiadau llywodraeth leol yn cael eu cynnal mewn 249 o ardaloedd awdurdod lleol yn Lloegr ac ar gyfer pob un o'r 11 o gynghorau lleol yng Ngogledd Iwerddon ddydd Iau 2 Mai 2019.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â phob achos a allai godi yn ystod yr ymgyrch, ac ni allant wneud hynny. Mae rhestr o faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr Undeb Ewropeaidd i'w gweld yn Atodiad A.

Os oes gennych unrhyw amheuan o gwbl am yr hyn y dylech ei wneud, dylech gysylltu â'ch Cyfarwyddwr Cyffredinol neu Gyfarwyddwr eich Adran neu â'r swyddog cyswllt priodol a restrir ym mharagraff 11 o'r nodyn hwn.

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn parhau'n berthnasol yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. O dan y cod hwnnw, mae'n rhaid i weision sifil barchu dwy egwyddor sylfaenol bob amser:

- (i) bod yn wleidyddol ddiduedd, a bod yn amlwg felly i eraill;
- (ii) sicrhau nad yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddiaeth plaid.

O dan y Cod, disgwylir i weision sifil Llywodraeth Cymru fod yn deyrngar i Lywodraeth Cymru. O'r herwydd, dylai staff barhau i fynd ati i gyflawni'r ymrwymïadau yn y rhaglen lywodraethu ac i ymgymryd â busnes arall Llywodraeth Cymru.

2. Cynorthwyo'r Gweinidogion – Papurau Briffio, Cyflwyniadau Ysgrifenedig a busnes arferol

Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ni ddylid, yn arferol, ofyn i'r Gweinidogion benderfynu ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Undeb Ewropeaidd neu sy'n effeithio ar berthynas Llywodraeth Cymru â'r Undeb Ewropeaidd (gweler Atodiad A), pe gellid dehongli hynny fel ymgais i ddylanwadu ar yr etholiad. Dylid naill ai wneud penderfyniadau o'r fath cyn i'r cyfnod cyn yr etholiad ddechrau neu dylid eu gohirio tan ar ôl yr etholiad.

Yn fwy cyffredinol, dylai swyddogion barhau i roi cyngor i'r Gweinidogion ac i'w briffio, ac i fwrw ymlaen â'u gwaith fel arfer, heb anghofio'r gofynion arferol i fod yn ddiduedd. Mae hyn yn golygu y dylid gwneud yn siŵr nad oes unrhyw beth yn eich gwaith (gan gynnwys papurau briffio ac atebion i ohebiaeth) a allai awgrymu, neu a allai beri i rywun feddwl eich bod yn cefnogi neu'n gwrthwynebu un neu fwy o'r pleidiau gwleidyddol. Os oes gennych unrhyw amheuan, dylech geisio cyngor eich Cyfarwyddwr Cyffredinol neu Gyfarwyddwr eich Adran.

3. Ymdrin â Gohebiaeth, Cwestiynau'r Cynulliad, Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac Ymholiadau

Oni bai bod y materion ynddynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd (gweler Atodiad A), dylai swyddogion, drwy gydol y cyfnod cyn yr etholiad, barhau i ateb gohebiaeth a Chwestiynau'r Cynulliad yn unol â'r gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes.

Bydd gohebiaeth at y Gweinidogion oddi wrth ASEau ac ymgeiswyr yn yr etholiadau am faterion nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar yr Undeb Ewropeaidd yn dal i gael ei hateb yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

Os yw gohebiaeth, Cwestiynau'r Cynulliad neu geisiadau am wybodaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd, dylid ymdrin â hwy yn y ffordd a amlinellir yn Atodiad A.

Mae pob cais am wybodaeth yn dod o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac fel arfer, rhaid ymateb iddynt ymhen 20 niwrnod gwaith. Os yw ceisiadau'n ymwneud â datgelu gwybodaeth wedi'i chofnodi nad yw'n wybodaeth gyhoeddus, dylid parhau i ymdrin â'r ceisiadau hynny yn unol â'r gweithdrefnau arferol a nodwyd yn y [Canllawiau i Staff sy'n Trin Ceisiadau am Wybodaeth a Gofnodwyd \(Saesneg yn Unig\)](#).

Dylech ymdrin â phob cais o'r fath yn yr un ffordd, ni waeth beth fo ymlyniad gwleidyddol y sawl sy'n ei wneud. Mae arweiniad pellach i'w gael yn Atodiad A.

4. Cyfathrebu

Yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, ni ddylid gwneud unrhyw gyhoeddiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Dylid naill ai wneud cyhoeddiadau o'r fath cyn i'r cyfnod cyn yr etholiad ddechrau neu dylid eu gohirio tan ar ôl yr etholiadau.

Yn fwy cyffredinol, dylid cymryd gofal arbennig wrth wneud cyhoeddiadau, trefnu digwyddiadau cyhoeddus, ymdrin â straeon ar wefan Llywodraeth Cymru ac ymgymryd â gwaith marchnata a chyhoedduswydd y telir amdano. Dylai'r gwaith fynd yn ei flaen fel arfer, ond dylai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r swyddogion cyfathrebu perthnasol ddefnyddio prawf sensitifrwydd ym mhob achos. Y rheol gyffredinol yw na ddylid rhoi'r argraff i unrhyw un fod unrhyw un neu rai o'r gweithgareddau hyn yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth plaid.

Os oes gennych unrhyw amheuan, dylech geisio cyngor y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu. Mae canllawiau penodol wedi'u paratoi ar gyfer swyddogion y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu a Rheolwyr y We yn yr Adrannau (Atodiad B). Mae'r gweithdrefnau awdurdodi sy'n gysylltiedig â rhyddhau newyddion yn cael eu hailadrodd yn y canllawiau hyn.

Bydd swyddogion Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a swyddogion eraill sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol yn cael eu canllawiau manwl eu hunain hefyd (Atodiad C).

Bydd swyddogion WEFO yn cael eu canllawiau eu hunain hefyd (Atodiad D).

5. Cydweithio ag Adrannau Whitehall

Bydd swyddogion Whitehall hefyd yn cael canllawiau am yr etholiadau oddi wrth Swyddfa'r Cabinet yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Os yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn arfer cydweithio ag adrannau Llywodraeth y DU, dylent barhau i drafod â'u swyddogion cyfatebol yn Whitehall.

6. Ymgynghori

Os yw Llywodraeth Cymru yn paratoi polisi, rhaglen neu gynigion deddfwriaethol newydd ac os yw'n ofynnol iddi ymgynghori, bydd ymgynghoriadau, fel arfer, yn dal i fynd rhagddynt yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, oni bai fod pwyslais penodol ar faterion Ewropeaidd. Dylid trafod unrhyw ymgynghoriadau a allai effeithio ar ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn benodol yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad gydag Is-adran y Cabinet a dylai'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol gynnal prawf sensitifrwydd er mwyn gweld a oes unrhyw faterion a allai fod yn rhai dadleuol yn wleidyddol.

7. Gweithgarwch Gwleidyddol gan Swyddogion

Dylem ddarllen y rheolau ar weithgarwch gwleidyddol, gan fod angen i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio i'r Llywodraeth ofyn am ganiatâd cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol.

Mae'r rheolau hyn i'w gweld yn y ddogfen [Cod Telerau ac Amodau Gwasanaeth](#)

[Llywodraeth Cymru](#) (Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Gwleidyddol, paragraffau 2.36 - 2.42) ac yn y canllawiau ar weithgarwch gwleidyddol yn [Pobl, Polisiâu a Gweithdrefnau](#).

Os oes unrhyw un sy'n cael ei gyflogi* gan Lywodraeth Cymru am ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol neu weithgarwch ymgyrchu mewn cysylltiad ag Etholiadau Senedd Ewrop, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd, dylai geisio caniatâd yn ysgrifenedig yn gyntaf oddi wrth ei Gyngorydd Adnoddau Dynol, gan wneud hynny drwy ei reolwr llinell.

Wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ai peidio, y llinyn mesur yw a yw'r sawl sy'n gofyn yn gweithio mewn "maes sensitif" ai peidio. Mae'r term "maes sensitif" yn cael ei esbonio'n fanwl yn y polisi ar weithgarwch gwleidyddol. Caiff Llywodraeth Cymru osod amodau neu gyfyngiadau ar unrhyw ganiatâd a roddir. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai'n caniatáu canfasio dienw dros y ffôn ond nid canfasio o ddrws i ddrws neu annerch cyfarfodydd.

*Mae gan weithwyr sydd ar "raddau diwydiannol a graddau heb fod mewn swyddfa" yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol. Er mwyn gweld diffiniad o'r graddau hyn, dylid troi at y canllawiau ar weithgarwch gwleidyddol yn [Pobl, Polisiâu a Gweithdrefnau](#).

8. Defnyddio Tir ac Adeiladau Llywodraeth Cymru

Ni ddylid defnyddio tir ac adeiladau Llywodraeth Cymru at ddibenion ymgyrchu. Ni ddylech geisio defnyddio tir ac adeiladau Llywodraeth Cymru at ddibenion o'r fath, nac arddangos posteri etholiadau etc ar safleoedd Llywodraeth Cymru. Bydd canllawiau tebyg yn cael eu hanfon at Ymddiriedolaethau'r GIG, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru etc ynghylch defnyddio'u hystadau hwy.

9. Staff Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion

Nid yw'n debygol y bydd y Gweinidogion yn gysylltiedig i'r un graddau â gweithgarwch ymgyrchu ag yn ystod etholiadau'r Cynulliad neu etholiadau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd staff y Swyddfeydd Preifat am drafod egwyddorion y canllawiau hyn gyda'r Gweinidogion cyn i'r cyfnod cyn yr etholiad ffurfiol ddechrau neu pan fo'n briodol. Dylai staff y Swyddfeydd Preifat barhau i gynorthwyo'r Gweinidogion gyda'u dyletswyddau swyddogol bob amser, ond dylent ddarllen y canllawiau ar ymdrin â Gohebiaeth, Cwestiynau'r Cynulliad, ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'r ceisiadau hynny am wybodaeth a amlinellir ym mharagraff 3 o'r canllawiau hyn ac yn Atodiad A.

Ni ddylai staff y Swyddfeydd Preifat fynd i ddigwyddiadau sy'n amlwg at ddibenion gwleidyddiaeth plaid neu at ddibenion ymgyrchu.

Ni ddylai staff y Swyddfeydd Preifat ganiatáu i adnoddau Llywodraeth Cymru gael eu defnyddio at ddibenion etholiadau Senedd Ewrop. Yn benodol, ni ddylent drefnu ceir swyddogol nac ystafelloedd yn adeiladau Llywodraeth Cymru nac yn unman arall, na chomisiynu areithiau na phapurau briffio, na threfnu cefnogaeth arall ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â phlaid neu ag ymgyrchu.

10. Cynghorwyr Arbennig

Bydd Cynghorwyr Arbennig yn parhau i roi cyngor a chymorth, gan gynnwys cyngor gwleidyddol, i'r Gweinidogion yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Arbennig. Cânt hefyd gymryd rhan fel unigolion preifat mewn gweithgareddau gwleidyddol.

11. Enwau cyswllt

Yn y lle cyntaf, dylech drafod unrhyw amheuan sydd gennych gyda'ch rheolwr llinell. Ond gallwch gael rhagor o gymorth a chyngor, yn enwedig mewn perthynas ag achosion penodol, oddi wrth yr unigolion isod. Dylech anfon unrhyw ymholiadau sydd gennych drwy'r e-bost.

Ymholiadau ynghylch:

- **A yw mater yn effeithio'n uniongyrchol ar yr Undeb Ewropeaidd:** Peter Ryland, Prif Weithredwr WEFO neu [flwch post Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd](#)
- **Briffio Gweinidogion a materion tebyg:** yr Ysgrifennydd Preifat perthnasol.
- **Caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth:** Steven Marshall, Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol neu Andrew Dobbs, Prif Gynghorydd Achosion DPA ac FOI.
- **Ymddygiad personol swyddogion (gan gynnwys cynghorwyr arbennig) sydd am gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgyrchu etc:** eich Tîm Cynghori yn Adnoddau Dynol.
- **Cyhoeddiadau, digwyddiadau, marchnata a chyhoeddusrwydd –** Toby Mason, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol neu Simon Jenkins, y Pennaeth Newyddion.
- **Staff yn y swyddfeydd preifat:** Damian Roche, Is-adran y Cabinet.
- **Unrhyw ymholiadau eraill am y canllawiau hyn:** Damian Roche, Is-adran y Cabinet.

Is-adran y Cabinet
Ebrill 2019

Materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr Undeb Ewropeaidd

1. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai busnes Llywodraeth Cymru fynd rhagddo fel arfer yn ystod yr ymgyrch ar gyfer etholiadau Senedd Ewropeaidd. Serch hynny, **ni ddylid** fel arfer gwneud penderfyniadau a chyhoeddiadau polisi newydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr Undeb Ewropeaidd ac y gellid barnu eu bod yn fodd o ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad.
2. Y maen prawf allweddol yw a fyddai penderfyniad neu gyhoeddiad yn effeithio'n **uniongyrchol ac yn benodol** ar yr Undeb Ewropeaidd **ac** a fyddai modd i eraill farnu bod y penderfyniad neu'r cyhoeddiad yn fodd o ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Dyma rai enghreifftiau o'r materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr Undeb Ewropeaidd:
 - Cyhoeddiadau ynghylch dyfarnu cyllid Ewropeaidd i brosiectau;
 - Cyhoeddiadau ynghylch materion polisi sy'n ymwneud â rhaglenni'r UE yng Nghymru;
 - Cyhoeddiadau neu benderfyniadau ynghylch adroddiadau arolygu neu archwilio ar brosiectau a ariennir gan Ewrop;
 - Cyhoeddiadau neu benderfyniadau polisi sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd yn unig;
 - Penderfyniadau am gyllid prosiectau neu raglenni sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd, lle byddai'r cyllid hwn yn cael ei gyfeirio i'r Undeb Ewropeaidd neu drwyddo, neu lle byddai angen ei gyfraniad;
 - Cyfarwyddiadau neu benderfyniadau ffurfiol eraill sy'n effeithio ar yr Undeb Ewropeaidd.
3. Fodd bynnag, mae Brexit a'r trafodaethau sy'n parhau ynglŷn â pherthynas y DU â'r UE yn y dyfodol yn golygu y cynhelir yr etholiadau hyn mewn cyd-destun nas gwelwyd mohono erioed o'r blaen. I'r perwyl hwn, ni fyddai'n briodol cyfyngu ar Weinidogion wrth iddynt hyrwyddo a chyflwyno safbwyntiau polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â Brexit pan fyddant yn cymryd rhan ym musnes y Cynulliad neu'n ymgysylltu yn gyhoeddus ynghylch Brexit rywle arall yn rhinwedd eu rôl fel Gweinidogion. Dylai staff barhau i gefnogi Gweinidogion fel arfer ar y materion hyn.
4. Ymysg y materion y gellid eu dehongli fel rhai sy'n dylanwadu ar ganlyniad etholiad, byddai unrhyw fater sy'n bodloni un o'r meini prawf isod neu y gellid ystyried ei fod yn bodloni unrhyw un ohonynt. Mae'r rhain yn berthnasol hyd yn oed i weithgareddau a fyddai'n hollol resymol ac y gellid eu cyfiawnhau o dan amgylchiadau busnes arferol:
 - canmol neu feirniadu yr Undeb Ewropeaidd a/neu ei arweinwyr, aelodau neu swyddogion;
 - canmol neu feirniadu dull penodol o ddarparu unrhyw wasanaeth gan yr Undeb Ewropeaidd, neu safon y gwasanaethau hynny.

5. Mater i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol yw ystyried goblygiadau pob achos unigol.
6. Mewn sefyllfaoedd eithriadol (er enghraifft, os bydd angen i Weinidogion gydymffurfio â dyddiad terfyn statudol), bydd modd gwyro oddi wrth y rheolau hyn. Bydd angen cymeradwyaeth benodol oddi wrth Weinidog arnoch er mwyn gwneud hyn.
7. Caniateir i'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau arferol nad ydynt yn rhai cyhoeddus fynd rhagddynt fel arfer. Felly, er enghraifft, dylid parhau i gynnal cyfarfodydd preifat gydag Aelodau Senedd Ewrop (ASEau) neu swyddogion.

Gohebiaeth, Cwestiynau'r Cynulliad, Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac Ymholiadau

8. Mae'r un egwyddorion yn gymwys yn achos atebion i ohebiaeth ac i Gwestiynau'r Cynulliad. Gan eu bod hwy, i bob pwrpas, yn wybodaeth gyhoeddus, ni fydd y Gweinidogion am ddarparu atebion llawn a manwl i ohebiaeth nac i Gwestiynau'r Cynulliad sy'n cyffwrdd â'r materion uchod ac y gellid barnu eu bod yn ceisio dylanwadu ar ganlyniadau'r etholiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylent ei chynnwys yn eu hatebion, hy heb esbonio na chyfiawnhau polisiâu Llywodraeth Cymru.
9. Os nad yw'n briodol ymateb i ohebiaeth benodol neu gwestiwn penodol oherwydd natur yr ateb a gaiff ei roi, dylent anfon ateb dros dro, gan ddefnyddio geiriad tebyg i'r un isod:

Mae'n ddrwg gennyf nad wyf yn gallu rhoi ateb llawn i'ch [llythyr/cwestiwn] am fod etholiadau Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019. Mae angen sicrhau na fyddai modd i unrhyw un farnu bod datganiadau a wneir gan Weinidogion mewn gohebiaeth neu fel arall yn ceisio dylanwadu ar ganlyniad yr etholiadau.

"Anfonaf ateb llawn atoch ar ôl yr etholiadau."

10. Os bydd ymateb i gais am wybodaeth yn golygu bod angen ystyried datgelu gwybodaeth a gofnodwyd nad yw eisoes yn wybodaeth gyhoeddus, dylid ceisio cyngor yr Uned Hawl i Wybodaeth.

Fel egwyddor gyffredinol, os oes cais yn dod i law o flaen y cyfnod cyn yr etholiad sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch yr Undeb Ewropeaidd neu ei Raglenni, bydd yr Uned Hawl i Wybodaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol yn ystyried sut y dylid ymdrin â'r cais hwnnw ac yn rhoi cyngor fel sy'n briodol. Os oes unrhyw geisiadau am wybodaeth y bernir eu bod yn debygol o ddylanwadu ar ganlyniadau'r etholiad yn dod i law o flaen y cyfnod cyn yr etholiad, neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ni ddylid anfon ymateb o sylwedd tan 24 Mai.

Er hynny, yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, dylai swyddogion barhau i ystyried a yw hi'n briodol rhyddhau unrhyw wybodaeth y bernir ei bod yn effeithio ar ganlyniadau'r etholiad, a hynny er mwyn iddynt fedru anfon atebion o sylwedd cyn

gynted â phosibl ar ôl yr etholiad.

Etholiadau Senedd Ewrop 23 Mai 2019
Canllawiau ar Gyfathrebu i bob aelod o staff yn y cyfnod cyn yr etholiad.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r holl staff sy'n ymwneud â chyfathrebu a marchnata ac mae'n ategu'r Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Swyddogion Llywodraeth Cymru. Daw i rym ar 2 Mai 2019, sef tair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio ar 23 Mai 2019. Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r gweithgareddau isod:-

- y cyfryngau: darlledu, print ac electronig
- sianeli mewnol, sianeli cyfryngau cymdeithasol neu sianeli electronig eraill
- cyfryngau y telir amdanynt
- cyfathrebu â rhanddeiliaid ac unrhyw gyfathrebu uniongyrchol arall, digwyddiadau, ac ymweliadau
- unrhyw weithgareddau cyfathrebu eraill sy'n debygol o effeithio ar ganlyniadau'r etholiad

Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau yr un fath ag o'r blaen yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Ond rhaid cofio y gallai rhai o weithgareddau Llywodraeth Cymru effeithio ar Ymgyrchoedd Etholiadol Senedd Ewrop.

Dylid bod yn arbennig o ofalus i osgoi materion a allai effeithio ar ganlyniad etholiadau Senedd Ewrop. Diffinnir y rhain yn benodol fel:

- canmol neu feirniadu yr Undeb Ewropeaidd a/neu ei arweinwyr, aelodau neu swyddogion;
- canmol neu feirniadu dull penodol o ddarparu unrhyw wasanaeth gan yr Undeb Ewropeaidd, neu safon y gwasanaethau hynny;
- unrhyw benderfyniad sydd o fantais neu anfantais i'r Undeb Ewropeaidd dros eraill, pa un bynnag mor resymol neu gyfiawn.

Gweithgareddau Cyfathrebu

Nid yw'r rhain yn faterion du a gwyn fel arfer. Yn aml bydd gofyn barnu a yw gweithgaredd cyfathrebu yn un addas, ynteu a allai gael ei weld fel rhywbeth a allai ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiadau. Felly, dylid pwysu a mesur pob achos yn unigol.

Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n well gohirio ymgyrch, ymweliad neu ddatganiad i'r wasg tan ar ôl yr etholiadau. Ond byddai angen ystyried hynny'n ofalus, rhag ofn y ceid awgrym y gallai'r gohirio ynddo'i hun ddylanwadu ar y canlyniad gwleidyddol:

- ymgyrchoedd cyhoedduswydd y telir amdanynt – ni ddylent fod yn agored i feirniadaeth eu bod yn cael eu cynnal at ddibenion pleidiol wleidyddol.
- dylid bod yn ofalus wrth drin ymweliadau arfaethedig gan Weinidogion. Yn amlwg, ni ddylai swyddogion gynorthwyo ag ymweliadau a digwyddiadau a gynhelir gan bleidiau at ddiben gwleidyddol neu er mwyn ymgyrchu.
- yn achos ymgynghoriadau, byddai'n well peidio â gwneud dim sy'n cystadlu â'r ymgeiswyr am sylw'r cyhoedd. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu peidio â chynnal gweithgareddau cyhoedduswydd na digwyddiadau ar gyfer ymgynghoriadau sy'n dal ar y gweill.

- bydd gwefannau swyddogol a sianeli ar-lein (er enghraifft tudalennau newyddion a negeseuon trydar Llywodraeth Cymru) yn cael eu hastudio'n ofalus gan y cyfryngau newyddion a chan y pleidiau gwleidyddol yn ystod cyfnod yr etholiadau, wrth iddynt chwilio am unrhyw dueddiadau gwleidyddol.
- ni ddylid cyhoeddi datganiadau i'r wasg ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn y cyfnod cyn yr etholiad.
- rhaid bod yn hynod ofalus wrth gyfrannu dyfyniadau gan Weinidogion a Dirprwy Weinidogion i'w cynnwys mewn datganiadau i'r wasg gan sefydliadau eraill. Dylai'r Pennaeth Newyddion weld pob datganiad i'r wasg a anfonir atom gan sefydliadau eraill, yn enwedig y rheini sydd ynghylch yr Undeb Ewropeaidd.
- ni ddylai dyfyniadau gan Weinidogion sydd i'w defnyddio mewn datganiadau trydydd parti gael eu cymeradwyo cyn gweld drafft terfynol o'r datganiad cyfan. Mae angen inni weld pwy arall sy'n cael ei ddyfynnu a beth maen nhw'n ei ddweud, ac mae angen inni wybod ym mha gyd-destun yn union y mae'r Gweinidog yn cael ei ddyfynnu.

Yn ôl yr arfer, dylech llynu'n gaeth wrth y protocol y cytunwyd arno ar gyfer cymeradwyo datganiadau, llinellau a dyfyniadau i'r wasg, trwy eu hanfon at y Cyngorwyr Arbennig yn ogystal ag at Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion.

Defnyddio safleoedd a deunyddiau Llywodraeth Cymru, neu safleoedd a deunyddiau cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Ni ddylai sefydliadau'r Llywodraeth gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion etholiadol.
- Ni ddylai deunyddiau a gynhyrchir gan y Llywodraeth gael eu defnyddio mewn unrhyw fodd i gefnogi'r ymgyrchu, ee ar wefannau ac mewn taflenni.
- Yn achos eiddo'r GIG, mater i'r Ymddiriedolaeth GIG berthnasol fydd penderfynu. Ond os caniateir ymweliadau ag ysbytai, er enghraifft, ni ddylid amharu ar y gwasanaethau a dylai'r un cyfleusterau gael eu cynnig i'r ymgeiswyr eraill. Fodd bynnag, cynghorir peidio â chaniatáu i gyfarfodydd etholiadol gael eu cynnal yn eiddo'r GIG.
- Rhaid i benderfyniadau ar ddefnyddio eiddo arall yn y sector cyhoeddus neu eiddo cysylltiedig gael eu gwneud gan y rhai sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am yr eiddo dan sylw. Er enghraifft, yn achos ysgolion, y Llywodraethwyr neu'r Awdurdod Addysg Lleol neu Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac yn y blaen. Os bydd y rhain yn cysylltu ag Adrannau, dylid dweud wrthynt mai eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud y penderfyniad ond y bydd disgwyl iddynt fel rheol drin ymgeiswyr pob plaid yn gyfartal.

Casgliadau

Os oes gennych unrhyw amheuaeth, y peth gorau i'w wneud bob amser yw holi'r Pennaeth Newyddion neu'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu cyn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau cyfathrebu a allai fynd yn groes i God y Gwasanaeth Sifil.

ETHOLIADAU SENEDD EWROP 2019 CANLLAWIAU AR WEITHGARWCH YSTADEGOL AC AROLYGON

YN YSTOD Y CYFNOD CYN YR ETHOLIAD

Dyma ganllawiau i'r holl staff sy'n ymwneud â gweithgarwch ystadegol ac arolygon. Mae'n cynnwys staff Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, ond mae hefyd yn berthnasol i staff mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru. Hefyd, dylai'r cyrff sy'n bartneriaid inni ac eraill sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol yng Nghymru, ee Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, dalu sylw i'r canllawiau hyn. Maent yn ategu'r Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd y canllawiau'n dod i effaith o 2 Mai 2019 tan y diwrnod pleidleisio ar 23 Mai 2019, a byddant yn cynnwys y diwrnod hwnnw.

Nid yw'r canllawiau yn ymdrin â phob posibilrwydd, ac os bydd unrhyw faterion eraill yn codi yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad dylech eu trafod yn gyntaf gyda'r Pennaeth Polisi Ystadegol a Safonau neu'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol.

I grynhoi:

Yn achos ystadegau swyddogol – fel arfer, dylech bob amser ddilyn y *Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau* a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, *Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009*.

Yn achos ymchwil – mae cod a phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn parhau'n gymwys yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

Dylid osgoi:

- Rhyddhau cyhoeddiadau ystadegol neu ymchwil ad hoc
- Cynnal arolygon neu ymchwil arall a allai fod yn ddadleuol
- Dosbarthu deunydd ar raddfa fawr a allai gael ei ddefnyddio at ddibenion ymgyrchu.

Os bydd unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Prif Ystadegydd neu'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (manylion cyswllt isod).

Egwyddorion

1. Dylech bob amser ddilyn y *Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau* a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, *Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009* a chod ymarfer a phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.
2. Peidiwch â chystadlu â phleidiau ac ymgeiswyr am sylw'r cyhoedd.
3. Peidiwch â chymryd rhan mewn gwleidyddiaeth plaid na chael eich defnyddio at ddibenion gwleidyddiaeth plaid na rhoi eich hun mewn sefyllfa lle bo'n ymddangos eich bod yn gwneud hynny.

Cyhoeddi ystadegau

4. Dylid cyhoeddi deunydd ystadegol (Datganiadau Cyntaf, Bwletinau, Penawdau a Chyhoeddiadau) y rhoddwyd rhag-hysbysiad amdanynt cyn dechrau cyfnod yr Etholiad. Peidiwch â chyhoeddi unrhyw ddeunydd ystadegol ad hoc na roddwyd rhag-hysbysiad amdanynt a pheidiwch â gohirio cyhoeddi unrhyw ddeunydd y rhoddwyd rhag-hysbysiad amdanynt gan y gallai'r cymhelliad dros wneud hynny gael ei gwestiynu.

5. Dilynwch [bolisi Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth sy'n ymwneud â chyhoeddi ystadegau swyddogol ar y diwrnod pleidleisio](#).

6. Dylid parhau i gyhoeddi negeseuon trydar yn ymwneud â chyhoeddi deunydd ystadegol trwy gyfrifon @ystadegaucymru a @statisticswales. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, dylid osgoi cynhyrchu ffeithluniau neu siartiau newydd ar gyfer cyfryngau cymdeithasol nad ydynt wedi'u llunio na'u cyhoeddi yn flaenorol.

7. Cymerwch ofal mawr drwy'r amser i fod yn ddiuedd ac yn wrthrychol yn y modd y byddwch yn cyflwyno ac yn disgrifio ystadegau ac mewn cyfarfodydd briffio wyneb-yn-wyneb.

Cyhoeddi Adroddiadau Ymchwil

8. Dylid rhoi rhag-hysbysiad o unrhyw adroddiadau a gyhoeddir yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad cyn dechrau'r cyfnod cyn yr etholiad. Fodd bynnag, o ystyried y rhag-hysbysiad byr ar gyfer ymchwil (2 wythnos) disgwylir yn gyffredinol na fydd yr ymchwil yn cael ei chyhoeddi yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, os bydd rhesymau dros ei chyhoeddi yn y cyfnod cyn yr etholiad dylid rhoi rhag-hysbysiad hwy ond dylid hefyd cael caniatâd y Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol. Gellir hefyd ofyn am gyngor y Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol ar achosion penodol

Caffael ymchwil

9. Fel arfer, ni ddylid ymgymryd â gweithgawrch caffael ar gyfer darn newydd o ymchwil yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a dylid gofyn cyngor y Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol os ceir amgylchiadau sy'n golygu na fyddai'n bosibl aros tan ar ôl yr etholiad cyn dechrau ar y gweithgarwch caffael.

Ceisiadau am wybodaeth neu gyngor

10. Dylid ymdrin â cheisiadau am wybodaeth ffeithiol yn unol â'r canllawiau cyffredinol ar gyfer etholiadau a'r broses arferol a amlinellir yn y [Canllawiau i Staff sy'n Trin Ceisiadau am Wybodaeth a Gofnodwyd](#). Os nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ffeithiol, cyfeiriwch y person i swyddfa breifat y Gweinidog priodol.

11. Byddwch yn deg wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth ffeithiol gan ymgeiswyr - er enghraifft o ran manylder yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ac o ran prydlongdeb eich ateb.

12. Dylech barhau i ymateb i geisiadau am arweiniad ffeithiol ar fethodoleg.

13. Cymerwch ofal mawr wrth ymdrin â cheisiadau am gyngor ar ddehongli neu ddadansoddi ystadegau, yn arbennig ceisiadau sy'n ymwneud â pholisïau neu addewidion manifesto pleidiau. Peidiwch â chostio polisïau nac addewidion heb ymgynghori'n gyntaf â'r Is-adran Cyllidebu Strategol.

14. Bydd y deunydd sy'n cael ei lunio'n rheolaidd mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth ystadegol bob pythefnos yn parhau i gael ei gyhoeddi trwy'r cyfnod cyn yr etholiad. Dylid sicrhau y rhoddir gwybod i'r tîm cyhoeddiadau Ystadegol am geisiadau o'r fath gan ei bod yn bwysig y gwneir hyn yn systematig gan osgoi'r argraff o ddethol.

Ceisiadau am ddeunydd sydd wedi'i gyhoeddi

15. Gallwch ddarparu niferoedd bach o daflenni, papurau cefndir neu gyhoeddiadau am ddim a oedd ar gael cyn cyfnod yr Etholiad, mewn ymateb i geisiadau amdanynt. Peidiwch â bodloni archebion mawr heb ganiatâd y Prif Ystadegydd, oherwydd mae'n bosibl mai'r bwriad yw eu defnyddio at ddibenion ymgyrchu. Mae hyn hefyd yn unol â'n hymrwymiad i leihau nifer y cyhoeddiadau papur rydym yn eu cynhyrchu.

Arolygon

16. Gallwch barhau i gynnal cyfrifiadau ac arolygon rheolaidd, arolygon parhaus ac arolygon sydd ar y gweill eisoes. Gall arolygon ad hoc sy'n rhan o gyfres ystadegol parhaus gael eu cynnal hefyd.

17. Gall arolygon ad hoc eraill fynd yn destun dadl neu fod yn gysylltiedig â mater yn ymwneud â'r Etholiad. Lle bo hyn yn debygol, dylech ystyried eu gohirio neu eu canslo. Petai hyn yn anodd neu'n gostus, gofynnwch i dîm Cyngori ar Arolygon Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi am gyngor.

Gwaith maes ymchwil

18. Fel arfer, ni ddylid cynnal gwaith maes sy'n gysylltiedig â phrosiect ymchwil yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, ond ar gyfer gwaith arolwg parhaus neu ymchwil sy'n ddibynnol ar amser, gall fod yn amhosibl osgoi'r cyfnod cyn yr etholiad. Dylid gofyn am gyngor gan y Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol mewn achosion penodol.

Cyngor

19. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r unigolion isod.

Enwau cyswllt yn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS)

Safonau a Pholisi KAS – Rachel Lloyd, Ffôn: 03000 253357
Y Prif Ystadegydd – Glyn Jones, Ffôn: 03000 256691

Etholiadau Senedd Ewrop – 23 Mai 2019

Canllawiau i staff sy'n gweithio ar gyflenwi Rhaglenni Ewropeaidd

Targedir yr atodiad hwn yn bennaf at staff sy'n gweithio ar Raglenni Ewropeaidd ar draws Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Thaliadau Gwledig Cymru (RPW), ond dylai eraill sy'n gweithio ar raglenni tebyg ar draws Llywodraeth Cymru ei ystyried hefyd.

Efallai y gwyddoch y cynhelir etholiadau i Senedd Ewrop ar **23 Mai 2019**.

Cyn hyn bydd cyfnod cyn yr etholiad ffurfiol yn dechrau ar **2 Mai** hyd at a chan gynnwys y Diwrnod Pleidleisio ar 23 Mai **2019**.

Yn ystod yr ymgyrchoedd etholiad a chyn yr etholiad, y brif neges yw bod popeth yn digwydd **'yn ôl yr arfer'** yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weision sifil:

- fod yn ddiduedd, gan gynnwys yn wleidyddol, a chael eu gweld felly;
- sicrhau nad yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion plaid wleidyddol.

O dan God y Gwasanaeth Sifil, mae'n rhaid i weision sifil ddangos teyrngarwch at Lywodraeth Cymru. Gan nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ethol, ein rôl yw cefnogi Gweinidogion yn eu gwaith yn ôl yr arfer.

Fodd bynnag, ni ddylid gwneud penderfyniadau a chyhoeddiadau sy'n effeithio'n **uniongyrchol** ar yr Undeb Ewropeaidd yn gyffredinol ac ar berthynas Llywodraeth Cymru â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, materion ynghylch y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Yr enghreifftiau amlycaf yw cyhoedduswydd ynghylch dyfarnu cyllid Ewropeaidd i brosiectau, hynt y rhaglenni a chyhoeddi adroddiadau arolygu ac archwilio. Dylid gwneud penderfyniadau o'r fath cyn cychwyn y cyfnod cyn yr etholiad neu eu gohirio tan ar ôl yr etholiadau. Mae hyn er mwyn osgoi unrhyw awgrym bod Llywodraeth Cymru yn ceisio dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Fodd bynnag, nid oes angen atal gweithgarwch nad yw'n cael ei gynnal yn gyhoeddus a dylid parhau i ymdrin â materion arferol. Felly, er enghraifft, dylid parhau â chyfarfodydd preifat gyda noddwyr a sefydliadau.

Mae crynodeb o ganllawiau yn dilyn ar gyfer **staff WEFO**, ar ffurf yr hyn y dylech ei wneud a'r hyn na ddylech ei wneud yn ystod yr ymgyrch. Hefyd dylai staff dalu sylw agos i'r Canllawiau Cyffredinol ar gyfer holl Swyddogion Llywodraeth Cymru uchod.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth o hyd am yr hyn y dylech ei wneud neu'r hyn na ddylech ei wneud, dylech droi at Bennaeth eich Is-adran neu Uned Cyfathrebu a Briffio WEFO am gyngor pellach.

DYLECH

- **Dylech** barhau i gymeradwyo prosiectau yn ôl yr arfer.

- **Dylech** barhau i wneud taliadau i noddwyr yn ôl yr arfer.
- **Dylech** barhau â gweithgarwch preifat. Felly, er enghraifft, dylid parhau â chyfarfodydd preifat gyda noddwyr a sefydliadau eraill ynghylch y Cronfeydd Strwythurol.
- **Dylech** barhau i weithio gydag adrannau Llywodraeth y DU a/neu'r Comisiwn a'u swyddogion cyfatebol yn ôl yr arfer.
- **Dylech** fod yn ofalus wrth drefnu cyfarfodydd Gweinidogol neu ymweliadau â phrosiectau a sicrhau eich bod yn egluro mai ymrwymiad swyddogol yw hwn yn hytrach nag ymrwymiad at ddiben plaid wleidyddol neu ymgyrchu.
- **Dylech** barhau i frifio Gweinidogion yn ôl yr arfer.
- **Dylech** ateb gohebiaeth yn ôl yr arfer. Fodd bynnag, gan mai materion cyhoeddus yw'r rhain i bob pwrpas, os nad oes modd rhoi ateb o sylwedd i faterion sy'n ymwneud â'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, dylech hysbysu Uned Cyfathrebu a Brifio WEFO a fydd yn trefnu i roi ateb dros dro.
- **Dylech** roi gwybodaeth ffeithiol mewn ymateb i ymholiadau gan bleidiau, ymgeiswyr ac eraill, yn unol â [Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad y Cyhoedd at Wybodaeth](#).
- **Dylech** drin unrhyw geisiadau o'r fath yn gyfartal, waeth pa blaid wleidyddol sy'n eu hanfon.
- **Dylech** ddarllen y [canllawiau Pobl, Polisiâu a Gweithdrefnau ar Weithgareddau Gwleidyddol](#).

PEIDIWCH

- **Peidiwch** â chynllunio cyhoeddiadau neu benderfyniadau ynghylch y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ystod ymgyrch yr etholiad. Dylech wneud y rhain cyn i'r canllawiau hyn ddod i effaith neu eu gohirio tan ar ôl yr etholiad.
- **Peidiwch** ag anfon unrhyw ohebiaeth neu fwletinâu etc ynghylch unrhyw drefniadau polisi neu weithredu sy'n effeithio ar y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ystod ymgyrch yr etholiad. Dylech wneud hyn cyn y bydd y canllawiau hyn yn dod i effaith neu eu gohirio tan ar ôl yr etholiad.
- **Peidiwch** â chyhoeddi unrhyw adroddiadau rheoli ariannol / archwilio sy'n effeithio ar y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn gyffredinol yn ystod ymgyrch yr etholiad. Dylech wneud hyn cyn y bydd y canllawiau hyn yn dod i effaith neu eu gohirio tan ar ôl yr etholiad.
- **Peidiwch** â threfnu unrhyw gyfarfodydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn ystod y cyfnod hwn, ond dylech barhau i roi cymorth ysgrifenyddiaeth i Aelodau PMRh fel sy'n briodol.
- **Peidiwch** â chynllunio cyhoeddiadau neu benderfyniadau y gellid eu dehongli fel cefnogaeth neu feirniadaeth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ystod cyfnod yr etholiad. Dylech eu gwneud cyn y bydd y canllawiau hyn yn dod i effaith neu eu gohirio tan ar ôl cyfnod yr etholiad.
- **Peidiwch** â chaniatáu i safleoedd y Cynulliad gael eu defnyddio at ddibenion ymgyrchu, ceisio defnyddio safleoedd Llywodraeth Cymru at y fath ddibenion eich hun, na dangos posteri etholiad etc ar safleoedd Llywodraeth Cymru.

**Staff WEFO / RPW / Rhaglenni Ewropeaidd
Ebrill 2019**